



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad yn dilyn monitro  
Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol**

**Ysgol Henblas  
Llangristiolus  
Bodorgan  
Ynys Môn  
LL62 5DR**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a  
Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Henblas wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Codi safonau darllen y disgyblion ar frig yr ysgol

Mae'r ysgol wedi gosod nifer o strategaethau cadarn ar waith i godi safonau darllen disgyblion. Bellach, mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen trwy amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a heriol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at eu mwynhad mewn darllen. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd gyda rhuglder a chywirdeb yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen a deall geiriau anghyfarwydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd yn fwy abl yn darllen a dehongli gwahanol nodweddion ysgrifenedig yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymateb i wahanol erthyglau ym mhapur newydd 'First News'. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen ar draws y cwricwlwm yn gynyddol hyderus. Maent yn darllen a thynnu gwybodaeth berthnasol o ystod eang o gyd-destunau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am yr Ail Ryfel Byd. Maent yn rhannu eu syniadau â'u cyfoedion yn hyderus gan ddefnyddio testun i gefnogi eu barn.

### A2. Sicrhau bod y cynllunio yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion o bob gallu i ddatblygu'r ystod lawn o fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae'r athrawon wedi gweithio'n ddiwyd i addasu cynlluniau cwricwlaidd a thematig yr ysgol. Mae cynlluniau gwaith yn addas ac mae athrawon yn eu defnyddio fel sail gadarn i ddarparu profiadau diddorol a heriol i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau'n fanwl ac yn ymateb yn briodol i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd, a chwricwlwm technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae dilyniant a pharhad yn y medrau yn amlwg o fewn y cynlluniau gwaith. Ar y cyfan, rhoddir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn amrywiol gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau bob amser yn sicrhau bod medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae llyfrau gwaith y disgyblion yn adlewyrchu cynnwys y cynlluniau newydd yn bwrpasol. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol fel rhan naturiol o'r gwersi. Enghreifftiau nodedig o hyn yw'r bas data a luniwyd gan ddisgyblion hynaf yr ysgol fel rhan o'u gwaith thema 'Pontydd', a'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan ddisgyblion ieuengaf y cyfnod yn seiliedig ar bwysigrwydd gweithgareddau corfforol. Mae athrawes y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod y tasgau a gyflwynir yn cyd-fynd â gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth eang o dasgau, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad yn dilyn ymweliad â'r bad achub yn Moelfre. Rhoddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol leisio barn a chwarae rôl weithredol yn y cynllunio.

Mae'r pennaeth wedi cychwyn monitro cynlluniau tymor byr athrawon er mwyn adnabod pa mor dda mae gweithgareddau yn diwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn yn llawn ar ddeilliannau disgyblion.

### **A3. Sicrhau bod y ddau ddosbarth ar waelod yr ysgol yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gyson ac yn unol â'r arfer orau sy'n bodoli o fewn yr ysgol**

Yn dilyn ailstrwythuro dosbarthiadau ym mis Medi, un dosbarth bellach sydd yn y cyfnod sylfaen. Yn y dosbarth hwn, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn. Dan arweiniad cadarn yr athrawes, mae'r cynllunio yn cyfateb yn glir i'r chwe maes dysgu. Mae'r gweithgareddau wedi eu haddasu'n effeithiol ar gyfer disgyblion o wahanol oed a gallu. Mae'r tasgau ffocws, y ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi yn yr ardaloedd dysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni'n dda. Mae cynlluniau'r dosbarth yn amlygu tasgau a phrofiadau ymarferol sy'n ennyn diddordeb y dysgwyr yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys tasgau rheolaidd yn yr ardal allanol, sydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn dda. Enghraifft o hyn yw'r modd y datblygir medrau mathemategol y disgyblion yn yr ardal allanol wrth iddynt ddarllen cyfesurynnau i ddarganfod esgyrn dinosoriaid a defnyddio unedau safonol i'w mesur fel rhan o waith thema'r dosbarth. Mae gan lais y disgybl le blaenllaw yn y cynllunio erbyn hyn. Mae disgyblion yn gwneud dewisiadau pwysig am eu dysgu ac yn cyfrannu eu syniadau'n rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn trafod a phenderfynu ar dasgau mathemateg sy'n cyfateb i sgil penodol. Mae sesiynau 'amser ar ben ein hunain' yn gyfrwng gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n annibynnol a chymryd rôl lawn wrth arwain eu dysgu.

### **A4. Sicrhau cysondeb yn yr addysgu, y weithdrefn olrhain cynnydd, a'r defnydd a wneir o wybodaeth asesu ar draws yr ysgol**

Mae'r pennaeth yn gosod gweledigaeth glir ynglŷn â'r disgwyliadau am addysgu effeithiol.

Ers yr arolygiad craidd, ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu wedi gwella. Yn y dosbarthiadau ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cynllunio'r gwersi'n dda ac yn diddori'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhediad y gwersi'n chwim ac mae'r athrawon yn holi'n effeithiol gan ddatblygu medrau meddwl y disgyblion yn dda. Erbyn hyn, mae'r addysgu yn sicrhau gwell pwyslais rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan yr athrawon a rhai lle mae disgyblion yn gwneud eu dewisiadau eu hunain. Er hynny, yn yr addysgu llai effeithiol, nid yw'r tasgau'n ddigon heriol ac nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. O ganlyniad, mae ychydig o anghysondeb yn ansawdd yr addysgu yn parhau, ac nid yw arfer dda yn cael ei rhannu'n ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn asesu cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn briodol, ac mae trefn bendant ar gyfer olrhain eu cynnydd. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth i gynllunio gwersi a ffurfio meini prawf llwyddiant synhwyrol ar gyfer y disgyblion. Maent hefyd yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, gan deilwra'r ddarpariaeth ar gyfer eu cynorthwyo, er enghraifft i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae adroddiadau defnyddiol gan athrawon yn crynhoi cynnydd y disgyblion yn synhwyrol

gan roi trosolwg o gyflawniadau a chyfeiriad am yr hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

#### **A5. Cryfhau rôl strategol arweinwyr ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr o'u rôl a'u cyfrifoldeb**

Ers ei benodi yn Ebrill 2018, mae'r pennaeth wedi cydweithio'n effeithiol gyda arweinydd y cyfnod sylfaen a'r llywodraethwyr er mwyn gwella ansawdd arweinyddiaeth yr ysgol. Mae staffio'r ysgol yn fwy sefydlog ac mae rolau arweinwyr wedi eu sefydlu'n bwrpasol. Mae'r athrawon yn datblygu'n briodol yn eu rolau, gan gyfrannu'n fwy bwriadus mewn gweithgareddau arfarnu a gosod cyfeiriad i'r ysgol yn eu meysydd cyfrifoldeb. Bellach, mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r pennaeth wedi cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion yn dda wrth lunio gweledigaeth ysgogol newydd i'r ysgol. Mae ymdeimlad y staff a'r disgyblion tuag at yr arwyddair 'gwreiddiau i dyfu; adenydd i hedfan' yn eu hysbrydoli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Mae prosesau mwy cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gwella yn dwyn ffrwyth. Mae enghreifftiau buan o welliannau yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau, fel y ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ac ar gyfer gwella medrau darllen disgyblion.

Mae rôl y llywodraethwyr yn datblygu'n briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn fwy aml i graffu ar waith disgyblion ac i drafod y ddarpariaeth, er enghraifft ar gyfer TGCh. Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn cyfrannu'n strategol drwy gyfarfodydd yr is-banel safonau, gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o'r gweithgareddau gwella a'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Maent yn herio perfformiad yr ysgol yn fwy priodol, er enghraifft wrth herio arweinwyr a staff am ddata perfformiad ac ynglŷn ag adroddiadau. Maent yn defnyddio prosesau hunanarfarnu yn fwy effeithiol er mwyn adnabod cryfderau, meysydd i'w gwella a gosod blaenoriaethau newydd synhwyrol ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, ar ôl dadansoddiad o wybodaeth hunanarfarnu, maent wedi awgrymu bod angen cynyddu nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch mewn mathemateg a gwella medrau rhifedd disgyblion mwy abl. O ganlyniad, dyma yw un o flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ddiweddaraf.

#### **A6. Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol yn effeithiol**

Erbyn hyn, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wella yn yr ysgol, ac mae prosesau cadarn yn eu lle er mwyn mynd i'r afael â'r gwelliannau. Maent wedi sefydlu ystod o weithdrefnau hunanarfarnu priodol, yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith, arsylwi ar wersi a holi barnau disgyblion a rhieni. Trwy hyn, mae'r arweinwyr yn dechrau datblygu gwell dealltwriaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, maent yn cychwyn adnabod blaenoriaethau newydd ar sail gwybodaeth ddilys.

Mae arweinwyr yn cychwyn craffu yn ofalus ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. Mae trafodaethau defnyddiol rhwng arweinwyr o fewn yr ysgol a'r llywodraethwyr sydd ynghlwm ag argymhellion penodol yn cefnogi'r gwaith craffu yn

effeithiol. Er nad yw'r arweinwyr angen gymaint o gymorth allanol, maent yn parhau i ddibynnu ar gyngor y consortiwm er mwyn monitro cynnydd. Mae gan arweinwyr syniadau da ynglŷn â sut i fonitro cynnydd cyffredinol yn rheolaidd, ond mae'n rhy fuan i weld hyn ar waith yn llawn eto.

Yn gyffredinol, mae cynnydd da yn erbyn llawer o'r argymhellion, sy'n dangos gallu cynyddol yr arweinwyr i fynd i'r afael â chynlluniau gwella yn fwy llwyddiannus.

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**